TAFLEN GYNGOR

# Rheoli Parciau a Mannau Gwyrdd ar gyfer Peillwyr

buglife Cymru



Crocysau © Urban Green Newcastle

Mae'r adnodd hwn wedi'i ddylunio ar gyfer awdurdodau lleol sy'n rheoli parciau a mannau gwyrdd ar gyfer bywyd gwyllt a'r gymuned leol, gyda ffocws penodol ar ddarparu ar gyfer anghenion peillwyr, yn enwedig o fewn B-Lines.


Gall parciau a mannau gwyrdd ddarparu digon o adnoddau paill a neithdar yn hawdd ar gyfer peillwyr gyda rhywfaint o addasiadau syml iawn. Mae rhaglenni torri llai llym a blaenoriaethu blodau llawn neithdar a phaill mewn gwelyau plannu yn syniadau hawdd ar gyfer darparu bwffe i beillwyr. Mae'n bwysig cofio nad dim ond blodau y mae peillwyr eu hangen i oroesi a ffynnu. Mae ganddynt gylchau bywyd cymhleth ac yn ogystal â chynefin chwilota am fwyd byddant angen cynefin nythu, cynefin gaeafgysgu a ffynonellau bwyd larfaol. Os allwch chi ddarparu rhai, os nad pob un, o'r nodweddion hynny yn eich parc neu eich man agored yna byddwch yn darparu hwb gwirioneddol ar gyfer peillwyr yn ogystal ag amgylchedd deniadol ar gyfer pobl.

## Beth yw B-Lines?

Mae B-Lines yn briffyrdd peillwyr, datrysiad ar lefel tirwedd i wrth-droi'r dirywiad mewn pryfed peillio. Maent yn rhedeg ar hyd a lled cefn gwlad Prydain, trwy drefi a dinasoedd, gan redeg o'r gogledd i'r de ac o'r dwyrain i'r gorllewin gan gysylltu'r cynefinoedd llawn blodau gwyllt gorau sydd gennym ar ôl.

O fewn coridorau'r B-Lines rydym yn annog pawb i greu cerrig sarn llawn blodau, yn fawr a bach, er mwyn helpu peillwyr a phryfed eraill i deithio'n ddiogel trwy ein tirwedd. Gall amgylcheddau adeiledig a rhai gaiff eu ffermio neu eu rheoli'n ddwys fod yn anodd iawn i bryfed symud trwyddynt gan nad oes bwyd na mannau gorffwys addas. Mae llawer o bryfed yn methu teithio'n bell iawn ac, o ganlyniad, maent yn cael eu dal mewn 'ynysoedd' bychain o gynefin da, gan fethu cytrefu ardaloedd newydd neu ail-gytrefu hen safleoedd. Mae hyn yn golygu y gall cynefinoedd a rhywogaethau fynd yn fwyfwy bregus a thameidiog. B-Lines yw'r ateb hyfryd i gyd-gysylltu'r mannau llawn blodau gwyllt yn ein trefi a'n cefn gwlad er mwyn helpu i atal y dirywiad mewn poblogaethau pryfetach, ac ry'n ni angen eich help chi!

Gall Awdurdodau Lleol chwarae rôl aruthrol bwysig wrth gyfrannu at B-Lines trwy ddim ond newid sut caiff gofodau gwyrdd eu rheoli i'w gwneud yn fwy deniadol i beillwyr. Ewch i'n map B-Lines - Buglife ac ychwanegu eich gwaith ar gyfer peillwyr, boed hynny'n ardaloedd ble mae'r rhaglen torri gwair wedi ei llacio, ble mae safleoedd wedi'u hadfer neu ble mae dolydd, pyllau neu wrychoedd wedi'u creu.




Rhwydwaith B-Lines y DU. Map rhyngweithiol ar [buglife.org.uk](buglife.org.uk)

## Gofalwch am yr hyn sydd gennych

Y cam cyntaf yw gwybod beth sydd gennych a’r hyn yr ydych yn ei wneud eisoes ar gyfer peillwyr. Efallai eich bod yn rheoli cynefinoedd lled-naturiol fel coetiroedd, rhostiroedd, dolydd, ayyb. Gwnewch yn siŵr bod y rhain wedi’u mapio, a bod cynlluniau rheoli priodol yn eu lle. Gallech hyd yn oed gyfrif nodweddion llai o faint ar eich gofodau a reolir, fel gwrychoedd sy’n gyfoeth o rywogaethau, ardaloedd glaswelltog llawn blodau gwyllt, pyllau, a daear foel ar lethrau sy’n darparu cynefin nythu gwych. Mae cynnal awdit o’r nodweddion sy’n bodoli eisoes yn y mannau yr ydych yn eu rheoli’n gam cyntaf da er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cydnabod a’u gwarchod.

## Buddugoliaethau syml

Yr ail gam rhesymegol yw edrych ar eich rhaglenni cynnal a chadw a rheoli a gweld ble y gellid gwneud addasiadau er mwyn rhoi hwb i fioamrywiaeth. Gallai fod mor syml â llacio eich rhaglen torri gwair.

### Peidiwch torri, gadewch iddo dyfu

Yn aml, mae gwledd heb ei darganfod yn ein parciau a’n mannau gwyrdd, a’r cyfan sydd angen yw cadw’r peiriant torri gwair i’r naill ochr a chlirio’r torion pan fyddwch chi’n torri’r gwair. Ar fannau ble mae’r glaswellt wedi ei dorri’n rheolaidd a ble mae’r torion wedi’u clirio o’r safle bydd hyn wedi helpu i wneud yr ardal yn fwy cyfoethog mewn blodau gwyllt. Bydd blodau gwyllt yn ffynnu orau mewn priddoedd di-faeth, trwy glirio’r torion gallwch helpu i leihau’r maetholion yn eich ardal o laswelltir. Bydd y torri rheolaidd wedi ffrwyno tyfiant y glaswellt drosodd a throsodd, sydd eto’n golygu bod rhai blodau’n cael lle i ymsefydlu ond nid i flodeuo.

Edrychwch yn fanwl ar ardal sydd wedi’i thorri’n fyr ac efallai y byddwch yn ddigon ffodus i weld rhosglymau dail llawer o flodau gwyllt, y cyfan y maent ei angen yw amser heb eu torri i flodeuo. Mae ardaloedd sydd wedi’u torri’n rheolaidd a’r torion wedi’u gadael ar y safle’n debyg o fod yn fwy tlawd o ran rhywogaethau ac yn cymryd hirach i gael eu cytrefu gan flodau gwyllt. Efallai y byddant angen mwy o dorri a chasglu yn y dechrau i ostwng y lefelau maetholion. Os hoffech gadw ardal fel glaswelltir cymharol fyr, gallech geisio ymlacio’r rhaglen dorri i bedwar neu lai o doriadau a chasglu y tymor rhwng mis Mawrth a mis Hydref. Bydd hyn dal yn caniatáu i blanhigion blodau byr, oedd yno’n barod fel y Feddyges Las, Meillion Gwyn a blodau menyn, i flodeuo.

Os oes gennych ardaloedd o laswelltir y gallwch adael iddynt dyfu’n hirach, yna byddai rhaglen reoli o un neu ddau doriad yn fwyaf priodol. Byddai hyn yn caniatáu ar gyfer ardal dalach, fwy glaswelltog fydd yn darparu lloches ar gyfer glöynnod byw fel Gweirlöyn y Glaw (*Aphantopus hyperantus*) a Gweirlöyn y Ddôl (*Maniola jurtina*), yn ogystal â chriciaid, sioncod y gwair a llawer mwy. Bydd hyn yn caniatáu i nifer o rywogaethau o flodau gwyllt flodeuo a gollwng eu hadau a darparu lloches ar gyfer ystod eang o fywyd gwyllt. Dylid cynnal y torri a chlirio mwyaf allweddol ar ddiwedd yr haf ym mis Awst neu fis Medi gan adael ardal heb ei thorri er mwyn darparu lloches barhaus trwy gydol misoedd olaf yr haf a thrwy’r gaeaf. Cofiwch gylchdroi yr ardal gaiff ei gadael heb ei thorri bob blwyddyn er mwyn osgoi gadael i’r safle ordyfu. Gellid cynnal yr ail doriad a chasglu un ai ym mis Hydref er mwyn clirio unrhyw dyfiant gwair cyn i’r gaeaf ddod, neu ym mis Mawrth i arafu tyfiant glaswellt cynnar. Cewch fwy o fanylion ar y dudalen ffermio: [Rheoli tir amaeth ar gyfer Peillwyr.]()

Waeth pa batrwm torri y penderfynwch ei ddefnyddio, **cofiwch sicrhau bod y torion yn cael eu clirio bob tro** a bod y tîm torri gwair i gyd yn deall yn iawn ble i dorri a phryd. Bydd staff cynnal tiroedd angen defnydd o beiriannau priodol i glirio’r torion a safleoedd i’w gwaredu. Efallai bod safleoedd compostio neu safleoedd treulio anaerobig yn ddau opsiwn fydd ar gael. Os ydych yn symud o system torri a gadael i system torri a chlirio byddwch yn raddol ostwng y lefel maeth ar eich glaswelltir ac yn caniatáu i fwy o flodau gwyllt ffynnu. Bob blwyddyn dylech sylwi ar fwy o flodau gwyllt yn ymddangos.



Clirio torion © Urban Green Newcastle

### Lleihau neu ddileu eich defnydd o gemegion

Mae cemegion yn niweidiol i'n peillwyr, mae lleihau neu ddileu eu defnydd yn gam cadarnhaol ar gyfer bywyd gwyllt a phobl. Mae llawer o gynghorau'n symud tuag at bolisi dim ond pan mae rhaid neu ddim goddefgarwch o chwynladdwyr – ry'n ni'n credu mai dim goddefgarwch yw'r agwedd orau er mwyn bywyd gwyllt a chymunedau lleol.

Mae llawer o'n blodau gwyllt brodorol yn cael eu hystyried fel chwyn, mae rhywogaethau fel dant y llew, creulys, Marddanhadlen Wen a llwyni mwyar, yn aml yn cael eu hystyried fel planhigion aflêr ac yn cael eu chwistrellu. Mae'r rhywogaethau hyn yn hynod o bwysig yn eu darpariaeth o baill a neithdar a dylid gadael iddynt flodeuo. Gall newid mewn amgyffred arwain at lai o ddefnydd o gemegau, mwy o blanhigion yn blodeuo a mwy o bryfed.



Parc Toll Cross, Glasgow, Y Bengaled a Milddail © Rachel Richards

## Creu ac adfer cynefinoedd ar gyfer peillwyr

Mae creu neu adfer dôl yn hwb aruthrol i beillwyr gan ddarparu amrywiaeth o flodau a gweiriau ar gyfer chwilota am fwyd sydd o fudd i wahanol grwpiau o beillwyr. Rydym wedi colli 97% o'n glaswelltiroedd llawn blodau gwyllt ers y 1930au, felly mae'r ymdrech i'w hadfer o bwys allweddol.

Efallai eich bod wedi dynodi llain o laswelltir sy'n addas i dyfu'n dal yn ystod yr haf a'ch bod wedi mabwysiadu'r patrwm torri a ddisgrifiwyd uchod. Os mai prin yw'r amrywiaeth rhywogaethau sy'n bresennol ac nad yw newid y patrwm torri wedi cynyddu'r amrywiaeth trwy adfywio naturiol (gall hyn gymryd ychydig flynyddoedd) yna efallai yr hoffech feddwl am gyfoethogi eich safle trwy gyflwyno hadau blodau gwyllt brodorol.

Mae nifer o bethau i'w hystyried wrth adfer ardal i fod yn laswelltir sy'n gyfoeth o rywogaethau; statws maeth y pridd, paratoi'r tir, cael hyd i hadau, cymysgfaoedd hadau, graddfeydd hau ac amseru. Cewch hyd i fwy o wybodaeth yma Sheet-2-Wildflower-rich-grassland-restoration-1.pdf ac yma Sheet-3-Wildflower-rich-grassland-creation-1.pdf (buglife.org.uk)

#### Rhestr o blanhigion addurnol addas

- Dahlias Sengl
- Mintys y Gath
- Llysiau'r Ysgyfaint
- Blodyn Pigwrn
- Lafant
- Clychlys
- Alyswm
- Llwyn Cwrens Blodeuog



Cardwenynen Gyffredin (*Bombus pascorum*) ar lafant
© Louise Hislop

### Plannu addurnol

Gall ardaloedd o blannu addurnol fod yn werddonau peillwyr effeithiol gyda dim ond ychydig newidiadau. Mae'r rhan fwyaf o blannu addurnol yn cynnwys planhigion mawr, lliwgar ar gyfer gwelyau blodau sy'n edrych yn llachar iawn ond sydd, mewn gwirionedd, yn darparu fawr ddim neithdar i bryfed fydd yn ymweld â nhw. Bydd dim ond ychwanegu ychydig o flodau deniadol sy'n llawn neithdar a phaill yn ei wneud yn ddefnyddiol i beillwyr ac yn hardd i bobl. Mae'n bwysig gwneud yn siŵr bod planhigion addurnol yn cael eu dethol yn gyfrifol ac nad yw'r planhigion y byddwch yn eu caffael wedi'u potio mewn mawn neu wedi'u trin gyda phlaladdwyr neonicotinoid.

Mewn nifer o barciau, mae'r hen raglenni plannu yn dal i'w gweld. Roedd llwyni mawr bythwyrdd yn arfer bod yn ddewis poblogaidd oherwydd eu natur caled a'u tyfiant cyflym, ond mae angen eu tocio'n rheolaidd rhag iddynt dyfu dros lwybrau troed, ac oherwydd eu bod yn cael eu tocio mor galed ni fyddant yn blodeuo nac yn dwyn ffrwyth sy'n golygu eu bod o ddim llawer o werth i fywyd gwyllt. Byddai cyfnewid y rhain am rywbeth o fwy o werth i fywyd gwyllt yn creu cadwyn o werddonau peillwyr ac yn creu ardaloedd deniadol i bobl eu mwynhau.

### Plannu neu gyfoethogi gwrych

Mae gwrychoedd yn darparu llu o adnoddau ar gyfer peillwyr; cynefin nythu, ardaloedd gaeafgysgu, ac adnoddau porthiant. Mae plannu gwrych sy'n llawn rhywogaethau brodorol yn ffordd sicr o ddarparu ar gyfer peillwyr. Os byddwch yn gallu cynnwys patrwm blodeuo yn eich gwrych, gallwch ddarparu neithdar a phaill ar gyfer peillwyr trwy gydol y flwyddyn, anelwch i gynnwys rhwng 4 a 5 rhywogaeth brennaidd yn eich gwrych,



Cynefin nythu ar gyfer gwenyn a gwenyn meirch unig © Liam Olds



Gwenynen Ddeildorrol Symudliw (*Magachile versicolor*) yn adeiladu nyth mewn twll wedi'i ddrilio mewn polyn ffens © Rachel Richards

mae rhywogaethau fel Drain Gwyn, Drain Duon, helyg, Afalau Surion a Rhosynnau i gyd yn blanhigion peillwyr boblogaidd. Os yn bosibl, plannwch eich gwrych ar dorlan bridd isel ac unwaith i'r gwrych ymsefydlu bydd y gweiriau twmpathog a'r hen dyllau llygod a llygod cwta wrth ei droed yn darparu cynefin nythu ar gyfer cacwn. Gall Llwyni Mwyar, Barf-yr-hen-ŵr, Iorwg a Bloneg y Ddaear ddarparu gwerth ychwanegol i beillwyr. Defnyddiwch blanhigion sy'n gynhenid i'ch ardal.

Un elfen bwysig i'w hystyried wrth blannu gwrych yw'r gwaith cynnal a chadw a rheoli fydd ei angen i'r dyfodol. Yn y blynyddoedd cyntaf pan mae'r planhigion yn ymsefydlu, bydd rhaid gwneud ymdrech i dorri glaswellt hir yn ei ôl yn ystod yr haf er mwyn sicrhau nad yw'r coed ifanc sy'n ymsefydlu'n cael eu tagu.

Unwaith i'r gwrych dyfu ac ymsefydlu efallai y bydd angen ei blygu, er efallai na fydd rhaid gwneud hyn am tua 20 mlynedd wedi ei blannu os caiff ei docio tua bob tair blynedd. Mae'r broses o blygu yn adfywio gwrych, mae'n helpu i lanw unrhyw fylchau ac mae'n annog tyfiant newydd trwchus o'r bôn i fyny. Bydd gwrych heb ei blygu, yn y pen draw, yn ddim ond rhes o goed. Fel arall, efallai y bydd patrwm torri deallus yn ddigon ar gyfer rheoli'r gwrych.

## Coed ar gyfer peillwyr


Yn aml iawn fydd coed ddim yn cael sylw dyledus pan ddaw'n fater o beillwyr, ond gallant ddarparu digonedd o flodau ar adegau allweddol o'r flwyddyn. Mae helyg yn darparu ffynhonnell paill a neithdar gwerthfawr ar gyfer mamwenyn sy'n deffro ar ddechrau'r gwanwyn. Bydd coed Criafol, Cerddin, Drain Gwyn, Drain Duon, Ceirios Du, Celyn ac Afalau Surion yn darparu porthiant ar gyfer peillwyr o fis Ebrill i Fehefin, a bydd ffrwythau tan ddiwedd yr haf a dechrau'r hydref yn darparu tamaid melys i bryfed, glöynnod byw ac adar. Bydd amryw o beillwyr yn ymweld â blodau coed Derw a Phisgwydd ac maent hefyd yn denu llyslau sy'n cynhyrchu melwlith melys, ffynhonnell siwgr arall ar gyfer llawer o bryfetach.

## Cynefinoedd nythu

Efallai y gwelwch fod toriadau neu ardaloedd moel o bridd mewn llecynnau heulog sy'n cael eu defnyddio eisoes gan wenyn sy'n nythu. Os nad oes, mae ffyrdd gwych i greu cynefinoedd nythu ar gyfer peillwyr, un ai'n dawel iawn neu trwy greu nodwedd ddeniadol ar gyfer eich parc neu eich man agored.

- **Torlannau pridd neu dywod moel:** Gall llecyn o bridd moel sy'n draenio'n rhwydd, mewn llecyn heulog fod yn ferw o brysurdeb. Bydd llawer o rywogaethau gwenyn unig yn tyllu i mewn iddo i greu nythod. Os yn bosibl, darparwch lecyn tawel, yn ddelfrydol yn wynebu'r de ac ar lethr (gallai fod o amgylch bôn coeden, gwrych neu isadeiledd), sy'n rhydd o lystyfiant a chadw llygad am y tyllau a phentyrrau bychain o dywod. Neu, gallech greu nodwedd amlycach ohono fel torlan fawr, gan osod arwyddion i egluro beth yw hwn a pha rywogaethau allai ei ddefnyddio. Gweler Sut i greu Torlan Gwenyn (buglife.org.uk)
- **Mae pren marw** yn adnodd pwysig ar gyfer llawer o infertebratau, mae'r tyllau a grëir gan dyllbryfed, fel chwilod, yn cael eu defnyddio gan wenyn unig sy'n nythu'n uchel. Os yw'n ddiogel i wneud hynny, yna bydd gadael pren marw'n sefyll ble y mae'n darparu cyfleoedd nythu ar gyfer rhywogaethau gwenyn fel y wenynen ddeildorrol a'r saerwenynen. Mae amrywiaeth yn hynod o bwysig, ac mae hynny'n wir hefyd am bren marw. Gadewch bren marw mewn lleoliadau heulog a chysgodol, yn sefyll ac ar y ddaear, a bydd yn darparu cynefinoedd ar gyfer ystod amrywiol o infertebratau a bywyd gwyllt arall. Gellir atgynhyrchu cynefin nythu pren marw trwy ddrilio tyllau mewn polion ffens, neu trwy ddarparu gwesty gwenyn unigryw. Gweler Bee-hotel-guide.pdf (buglife.org.uk). Mae'r olaf yn gallu bod yn nodwedd addysgiadol wych ac mae digonedd o opsiynau ar gael ar gyfer adeiladu un eich hun neu brynu un.

  Mae hyd yn oed dyllau pwdr mewn pren marw yn bwysig i beillwyr. Mae'r pyllau bychain o ddŵr allai gronni yng nghesail canghennau neu mewn twll yn y boncyff yn gynefin nythu ar gyfer rhywogaethau rhai pryfed hofran. Byddant yn dodwy ŵy mewn dŵr llonydd ble bydd y larfau'n byw tan eu bod y barod i ymddangos fel oedolyn. Bydd tyllau pwdr mewn coed neu hyd yn oed wrychoedd yn cynnal y cylch bywyd hwn.
- **Planhigion bwyd larfaol:** Mae llawer o beillwyr angen planhigion penodol i'w larfau fwydo arno. Mae nifer o rywogaethau glöynnod byw yn dibynnu ar weiriau fel planhigion bwyd, byddai Gweirlöyn y Ddôl (*Maniola jurtina*) yn diolch ichi am ardal o laswellt hir, tra byddai'r Fantell Goch (*Vanessa atalanta*) yn gwneud defnydd da o glwt o Ddanadl Poethion.



Plannu planhigion plwg © Kate Jones

## Ymgysylltu â chymunedau lleol

Yn aml, bydd creu mannau sy'n fwy cyfeillgar at fywyd gwyllt yn golygu torri'n rhydd o raglenni rheoli sy'n blaenoriaethu taclusrwydd o flaen popeth arall. Tra bydd hyn yn newid i'w groesawu gan lawer, mae'n bosibl y caiff pobl eraill eu siomi gan yr hyn maent yn ei ystyried yn esgeuluso neu anghofio am eu parciau. Mae sicrhau bod gennych gefnogaeth y gymuned ar gyfer y newidiadau hyn cyn gynted â phosibl yn ystod y broses yn allweddol ar gyfer llwyddiant yn y tymor hir.

Bydd cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus, cynnal diwrnodau gwirfoddoli neu ddyddiau ymweld a gweithio gydag ysgolion a grwpiau cymunedol lleol yn helpu i atgyfnerthu cefnogaeth y gymuned i'r gwaith. Bydd arwyddion deniadol sy'n egluro pam fod y gwaith yn cael ei wneud, pa fuddiannau ddaw yn ei sgil ac efallai fanylion am rywogaethau, yn nodwedd wych ar safle sy'n gadael i bobl wybod bod gwaith rheoli'n digwydd sydd wedi ei deilwra'n arbennig i'r cynefinoedd a'r rhywogaethau sy'n bresennol yno.

## Lleihau llygredd golau

Elfen sydd ddim yn derbyn cymaint o sylw efallai pan ddaw'n fater o reoli gofodau gwyrdd ar gyfer peillwyr, yw effaith goleuadau. Mae llawer o infertebratau, yn enwedig gwyfynod, chwilod a phryfed, yn cael eu denu gan oleuadau artiffisial, ac mae hyn yn tarfu ar eu symudiadau naturiol yn cynnwys mudo a chwilio am gymar ac yn eu gwneud yn fwy agored i ysglyfaethu, yn enwedig gan ystlumod.

Mae llygredd golau wedi ei gysylltu â'r dirywiad mewn infertebratau, ond mae ein dealltwriaeth o ba mor rymus yw effaith llygredd golau ar infertebratau yn dal i fod yn gyfyngedig, ond rydym yn sicr yn gwybod ei fod yn un o'r amrywiol resymau am y dirywiad mewn infertebratau ac mae angen inni gyflwyno camau i leddfu hyn. Mae goleuadau, yn naturiol, yn fesur diogelwch pwysig, ond mae camau y gall awdurdodau lleol eu cymryd er mwyn lleddfu yn erbyn effeithiau llygredd golau.

Ble bynnag y bo modd, anelwch am dywyllwch naturiol, gan ddim ond defnyddio golau artiffisial ble bydd ei angen a chyn lleied â phosibl. Dylid cyfeirio goleuadau draw oddi wrth ardaloedd cynefin pwysig, gan osod gorchuddion ar oleuadau stryd er mwyn lleihau 'gollwng' golau a, ble fo modd, ystyriwch ddefnyddio goleuadau synhwyro symudiadau. Mae lliw'r golau a'i effeithiau ar fywyd gwyllt yn fater cymhleth. Yn gyffredinol, dylid osgoi LEDs tonfedd fer (UV a glas), mae lliwiau cynnes yn well felly byddai ychwanegu hidlydd i LEDs yn ddatrysiad da ar gyfer hyn.

## Cynefinoedd gwlypdir

Mae dŵr yn darparu hwb sylweddol i fioamrywiaeth o'i ychwanegu i unrhyw ofod, boed fawr neu fach. Gall pyllau dŵr gynnal nifer eithriadol o fywyd gwyllt ac maent yn cynnig llu o fuddiannau i infertebratau; blodau llawn paill a neithdar ar hyd y glannau, cynefin ar gyfer larfau dyfrol, ac yn syml le i gael diod. Yn ogystal, bydd cerrig wedi eu lleoli'n ddoeth yn darparu mannau gwych i infertebratau dorheulo ar ddiwrnod heulog.

Bydd pwll bywyd gwyllt da yn rhydd o bysgod a heb fod yn rhy ddwfn, gydag ymylon llethrog neu risiog sy'n darparu ystod eang o gynefinoedd, yn cynnwys llystyfiant ymylol brodorol fydd yn darparu paill a neithdar ac yn cael ei gadw'n gymharol rydd o lystyfiant bargodol. Bydd cynnwys ardal gorsiog sydd efallai'n amsugno'r gorlif yn darparu cyfle i gynnwys planhigion gwych fydd yn darparu hwb gwirioneddol i beillwyr.

### Rhestr o blanhigion addas

- Llysiau'r-milwr Coch
- Mintys y Dŵr
- Canwraidd y Dŵr
- Gold y Gors
- Mapgoll Glan y Dŵr
- Briwlys y Gors
- Erwain
- Pysen-y-ceirw Fawr
- Triaglog

Bug-friendly-ponds.pdf (buglife.org.uk)



Triaglog © Rachel Richards

**Bydd cynnwys rhai neu bob un o'r awgrymiadau hyn yn gwneud eich parc / gofod agored yn fan bywiog ar gyfer pobl a bywyd gwyllt. Bydd arwyddion deniadol o safon uchel yn denu ymwelwyr, bydd amrywiaeth y cynefinoedd a gynigir yn ei wneud yn le cyffrous i blant ei archwilio a bydd y bywyd gwyllt gaiff ei ddenu i'r llecyn yn dod â harddwch a phrysurdeb yr haf hefyd.**

R. Richards (2023) Rheoli Parciau a Mannau Gwyrdd ar gyfer Peillwyr



Mae Buglife - The Invertebrate Conservation Trust yn gwmni cyfyngedig trwy warant, a gofrestrwyd yn Lloegr yn Allia Future Business Centre, London Road, Peterborough PE2 8AN. Rhif cwmni 4132695. Elusen gofrestredig rhif 1092293. Elusen gofrestredig Yr Alban rhif SC040004.